Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

# TAFLEN FFEITHIAU CYDRADDOLDEB A RHYW (GWRYW A BENYW)

## Cyflwyniad

Mae rhyw yn 'nodwedd warchodedig' yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ac mae'r gyfraith yn amddiffyn dynion a menywod rhag gwahaniaethu ar sail rhyw. Darganfu cyfrifiad 2011 fod 55% o'r 560,000 yn fras o bobl 65 oed a throsodd yng Nghymru yn fenywod a 45% yn ddynion.

Y categori cyntaf wrth ddosbarthu bodau dynol ydy'r rhaniad rhwng gwryw a benyw. Er bod deddfwriaeth a gwaith atal gwahaniaethu ar sail rhyw wedi canolbwyntio'n bennaf ar fenywod, mae'n bwysig cofio bod dynion hefyd yn dod o dan y gyfraith.

## Y materion

Mae agweddau at yr hyn sy'n gymdeithasol dderbyniol o ran rolau dynion a menywod wedi newid yn sylweddol iawn. Deng mlynedd ar hugain yn ôl roedd llawer o fenywod yn cytuno â'r syniad cyffredin mai'r dynion oedd y prif enillwyr cyflog ac mai 'lle'r fenyw oedd yn y cartref'. Mae gan y genhedlaeth bresennol o fenywod hŷn brofiadau a disgwyliadau bywyd gwahanol iawn. Mae pob cenhedlaeth o fenywod yn aml yn cydbwyso cyflogaeth â chyfrifoldebau gofalu am aelodau o'r teulu o bob oed. Ond, yn aml mae dynion hŷn hefyd yn ofalwyr i aelodau hŷn o'r teulu, yn enwedig i bartneriaid.

Mae cyflog cyfartal i fenywod a dyrchafiad i'r swyddi uchaf yn dal yn broblem. Er gwaethaf y datblygiadau niferus o ran statws cymdeithasol menywod mewn yn y gymdeithas, mae yna ddisgwyl o hyd mai menywod fydd yn cyflawni'r swyddogaethau 'gofalu' a'r rhan fwyaf o

lawer o'r 'gwaith tŷ' arferol mewn unedau teuluol, yn ogystal ag unrhyw waith cyflogedig.

Mae diwygiadau pensiynau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn golygu y bydd rhaid i lawer o fenywod hŷn barhau mewn gwaith yn hirach na'r hyn yr oedden nhw wedi'i ddisgwyl. Gall menywod hŷn hefyd gael problemau yn gysylltiedig â hawliau pensiynau is oherwydd bylchau yn eu cyflogaeth pan oedden nhw'n rhoi gofal amser-llawn i deuluoedd ifanc. Gall hyn effeithio ar incwm menyw sydd wedi ymddeol a'i gadael mewn perygl sylweddol uwch o fod mewn tlodi pensiwn. Gall menywod hŷn ddioddef 'ergyd ddwbl' wrth i ragfarn ar sail rhyw ac oedran gyfuno ac effeithio'n negyddol ar eu bywydau. Mae yna bryderon neilltuol y gall yr hinsawdd economaidd gyfredol gael effaith anghymesur ar fenywod hŷn. Syrthiodd diweithdra yng Nghymru yn 2012 ond dyblodd nifer y menywod di-waith rhwng 50 a 64 oed.

Mae rhagfarn ar sail oedran yn effeithio ar ddynion hefyd ac mae'n cael effaith neilltuol ar allu rhai dynion i gael gwaith ar ôl 50 oed. Mae dynion yn tueddu i fod â llai o gysylltiadau cymdeithasol na menywod a gall hyn arwain at unigrwydd ac arwahanrwydd yn nes ymlaen yn eu bywyd, sy'n gallu cael effaith ehangach ar eu hiechyd a'u llesiant. Gall hyn fod yn broblem wrth geisio cyfleu negeseuon iechyd i ddynion, er enghraifft, am ganser y prostad neu iselder.

**Casgliad**

Mae'r pwysau cymdeithasol parhaus ar fenywod i gymryd y prif gyfrifoldeb dros ddarparu gofal yn tueddu i effeithio ar fenywod hŷn yn anghymesur a gall hynny eu rhwystro rhag dechrau neu barhau mewn gwaith amser-llawn. Gall hyn effeithio ar ddynion sy'n ofalwyr hefyd. Rhaid mynd i'r afael ag effaith hyn ar fywydau dynion a menywod hŷn trwy ddefnyddio arferion gwaith, cefnogaeth ac anogaeth yn fwy effeithiol. Rhaid grymuso a chefnogi menywod i wneud penderfyniadau am y cydbwysedd rhwng gwaith a gofalu ar sail yr hyn sy'n gwneud synnwyr economaidd iddyn nhw a'u teuluoedd.

I weld y gronfa dystiolaeth ar gyfer y daflen ffeithiau hon a rhagor o adnoddau ewch i www.olderpeoplewales.com